



At: Holl Benaethiaid Cynllunio

12 Mehefin 2018

## Annwyl Gydweithiwr

Rwy'n dymuno atgoffa Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau) o'r angen i ystyried yn llawn effeithiau datblygiadau amaethyddol dwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, ac rwy'n eich gwahodd i gymryd rhan mewn gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.

Mae economïau gwledig cryf yn hanfodol i greu a chynnal safleoedd a chymunedau bywiog. Dylai'r system gynllunio gefnogi twf economaidd a chyflogaeth yng nghefn gwlad pryd bynnag y bo'n briodol. Wrth fabwysiadu dull adeiladol o ddatblygu amaethyddiaeth, mae angen inni sicrhau y rhoddir ystyriaeth sylweddol i ddiogelu'r amgylchedd hefyd, yn ogystal â llesiant pobl a'r effaith ar adnoddau naturiol a diwylliannol.

Mae angen caniatâd cynllunio fel arfer ar unedau amaethyddol mawr dwys, a ble yn briodol, awgrymir bod ACLLau yn sefydlu polisiau priodol o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn hwyluso'r broses o ystyried cynaliadwyedd y math yma o ddatblygiad.

Gall unedau amaethyddol dwys, yn benodol ffermydd moch a dofednod, gael effaith ar gynefinoedd sensitif yn ogystal â'r boblogaeth leol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod llygryddion yn cael eu rhyddhau, gan gynnwys: amonia; maethynnau o dail, sbwriel a slyri; llygryddion o elifion; llwch; arogl; a sŵn.

Mae angen bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried datblygiadau a fyddai'n golygu bod unedau da byw yn agos iawn at ddefnydd sensitif o dir megis cartrefi, ysgolion, ysbytai, datblygiadau swyddfeydd neu ardaloedd sy'n sensitif yn amgylcheddol. Yr hyn sy'n bwysig yw, er y byddai'n bosibl y byddai datblygiad unigol ar gyfer da byw dwys yn dderbyniol, dylid ystyried effeithiau cronol o ganlyniad i ddatblygiadau tebyg gerllaw hefyd.

Er mwyn helpu i ystyried y datblygiadau hyn, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ganllawiau wedi'u diweddarau y llynedd i asesu allyriadau a allai arwain at lygru o unedau dofednod dwys. Mae'r canllawiau hyn i'w defnyddio gan ACLLau, a'u Hadrannau lechyd yr Amgylchedd penodol ar unrhyw geisiadau perthnasol.


Defnyddir yr un cyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru o fewn y broses o roi caniatâd amgylcheddol ar gyfer safleoedd sy'n cadw dros 40,000 o adar.

<https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/installations/intensive-farming-pigs-and-poultry/?lang=cy>

Tra y gallai caniatâd amgylcheddol a rheolau lleol, megis niwsans statudol, reoli effeithiau parhaus y datblygiad, dylai'r system gynllunio ystyried yn y lle cyntaf y berthynas rhwng y defnydd o dir cyfagos a'r defnydd o dir a allai arwain at wrthdaro.

Wrth inni ddatblygu system ar gyfer y polisi amaethyddol wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yng nghyd-destun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae diddordeb cynyddol yn swyddogaeth amaethyddiaeth dwys. Er mwyn ystyried swyddogaeth bosibl cynllunio yn y dyfodol, hoffwn wahodd ACLlau sydd â diddordeb yn y maes hwn, i gydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru i edrych ar sut y gallai dadansoddi llygredd nitrad ac allyriadau sydd ag arogl megis amonia, a'u heffeithiau cronol, gael eu hasesu'n well yng ngoleuni amgylchiadau lleol. Os hoffech wybod mwy cysylltwch â Hywel Butts ar 0300 025 1619 neu [Hywel.butts@gov.wales](mailto:Hywel.butts@gov.wales)

Yn gywir,



**Neil Hemington**

Y Prif Gynllunydd

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio